



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Setliad Dros Dro

Llywodraeth Leol 2019-2020

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-731-0

## Crynodeb o'r Prif Sylwadau

DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu safbwyntiau a dehongliadau'r atebwyr, fel y'u rhoddwyd yn eu hymatebion.

### **Cyngor Sir Wrecsam – Setliad Dros Dro -0.6%**

Mae Wrecsam yn siomedig bod Llywodraeth Cymru eto wedi lleihau'r gyllideb Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus er eu bod wedi diogelu gwasanaethau eraill (ar wahân i'r Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu). Gan fod awdurdodau lleol yn chwarae rhan hollbwysig mewn iechyd a gofal cymdeithasol, maent yn teimlo ei bod yn annheg y bydd y gyllideb Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynyddu 7.3% ac y bydd Llywodraeth Leol a Chyrrff Cyhoeddus yn lleihau 0.6%. Cyhoeddwyd, i gydnabod cyfraniad pwysig awdurdodau lleol at gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol craidd, fod £20m ychwanegol wedi'i gynnwys yn y setliad i helpu i leddfu'r pwysau hyn.

Mae arian ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd h.y. cyflogau athrawon (£3m) a phrydau ysgol am ddim (£5.6m) hefyd wedi'i gynnwys yn y setliad, ond mae cyfanswm y setliad (wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau) wedi lleihau £12.2m h.y. lleihad 0.3% o gymharu â 2018-19.

Nid yw'r £20m o gyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn ddigon i ymdrin â'r pwysau sydd ar awdurdodau lleol o ran gofal cymdeithasol ac yn 2018-19, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau Cymru yn teimlo pwysau sylweddol o ran Plant sy'n Derbyn Gofal. Bydd y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol fis Ebrill nesaf (£7.83 i £8.21, h.y. 4.9%) hefyd yn effeithio ar yr hyn y bydd angen i awdurdodau lleol ei dalu i ddarparwyr gofal cymdeithasol allanol yn ystod 2019-20.

Roedd cyhoeddiad Cyllideb Hydref y DU yn awgrymu symiau refeniw canlyniadol ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn 2018-19 a 2019-20 (£486m). Ar ôl cyhoeddi'r Setliad Dros Dro, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, pe bai cyllid ychwanegol ar gael i Gymru, y byddai llywodraeth leol yn flaenoriaeth allweddol i'r cyllid hwnnw. Mae Wrecsam yn gobeithio, yng ngolwg y pwysau sylweddol sydd ar y Cyngor, y bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo'r holl gyllid ychwanegol i lywodraeth leol.

Maent yn croesawu'r penderfyniad i gadw'r grantiau Gwella Addysg ac Amddifadedd Disgyblion ar lefelau 2018-19 a'r cymorth ychwanegol ar gyfer Dysgwyr o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Mae ysgolion Wrecsam o dan bwysau sylweddol; mae mwy a mwy o ysgolion yn gweithredu o dan amodau diffyg drwyddedig gymeradwy - byddai trosglwyddo'r grant Cyllid Ysgolion newydd (£15m) i mewn i'r grant cynnal ardrethi yn helpu i ddiogelu swyddi athrawon a chynorthwyr addysgu sydd o dan fygythiad ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor o'r farn y dylid trosglwyddo'r grant Gwasanaethau Cymdeithasol £30m i'r grant cynnal ardrethi i helpu â phwysau o ran plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â gofal cartref.

Maent yn croesawu cyflwyno dull gweithredu dau grant ar gyfer y Prosiect Ariannu Hyblyg ac ochr yn ochr ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru; bydd yn aros yn ei le am weddill tymor y Cynulliad. Mae Wrecsam yn falch bod cyfanswm y cyllid ar gyfer y grantiau wedi'i gynnal ar lefelau tebyg i 2018-19 ac mae'r penderfyniad i ddiogelu cyllid i wasanaethau ataliol allweddol yn rhoi cyfle i awdurdodau i ddatblygu dulliau gweithredu mwy strategol a hirdymor yn y meysydd hyn.

Maent yn siomedig nad oedd grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy 2019-20 ar gael mewn pryd i gyhoeddiad y Setliad Dros Dro. Maent wedi gweld gostyngiad cronus o 18% yn y

grant ers 2015-16 sydd wedi rhoi pwysau aruthrol arnynt i ariannu eu gwasanaeth ailgylchu; ni ellir lleihau'r costau casglu hyn heb leihau eu cyfraddau ailgylchu. Mae Wreccsam yn gobeithio na fydd y toriadau arfaethedig yn digwydd; nid y £2.8m a gyhoeddwyd yn annisgwyl yn y gyllideb y llynedd, na'r toriad effeithlonrwydd £2m sydd wedi digwydd yn flynyddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae Wreccsam yn deall bod yr Adran Addysg yn cynnig darparu mwy o gyllid i dalu am gostau pensiwn ychwanegol i ysgolion gwladol yn Lloegr ac oni ddarperir cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n anochel y bydd hynny'n effeithio ar safonau ysgolion sy'n un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae'r grant cyfalaf wedi aros ar yr un lefel ers 2013-14. Er bod y Cyngor wedi adolygu a rhesymoli eu hasedau eiddo, nid ydynt wedi gallu buddsoddi yn yr asedau sy'n weddill at safon foddhaol ac mae angen buddsoddiad mawr i roi sylw i lawer o waith cynnal a chadw sydd ei angen. Ysgrifennodd y Cyngor at Lywodraeth Cymru i ofyn am gynnydd mewn cyllid cyfalaf i Lywodraeth Leol yn y dyfodol, ac maent yn siomedig na fu cynnydd ar gyfer 2019-20.

Mae cymorth ariannol parhaus Llywodraeth Cymru yn beth cadarnhaol i'r cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ond mae'r adnodd yn dal i fod ar yr un lefel â phan gafodd ei gyflwyno yn 2013-14 ac mae'n parhau i roi pwysau ariannol ychwanegol arnynt. Gan nad oes ffigurau setliad mynegol wedi'u darparu ar gyfer 2020-21 a blynyddoedd yn y dyfodol, mae'n anodd i Gynghorau baratoi strategaethau ariannol tymor canolig heb syniad am gyllid yn y dyfodol. Dylid ystyried darparu ffigurau setliad cynharach a'r posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru gynnig opsiwn i unrhyw Gynghorau i gael setliad cyllid ar gyfer mwy nag un flwyddyn, gan roi sefydlogrwydd a sicrwydd cyllid, a'u galluogi i gynllunio cyflenwi gwasanaethau mewn modd rhagweithiol.

### **Cyngor Sir Penfro – Setliad Dros Dro -0.4%**

Mae Sir Benfro yn teimlo bod nifer o faterion critigol o ran y setliad dros dro. Maent o'r farn bod angen adolygu'r fformiwla cyllid i newid yr 'elfen treth safonol' wrth gyfrifo'r dreth gyngor gan eu bod yn dal i gael eu cosbi am fod â'r Band D Treth Gyngor isaf yng Nghymru. Mae eu Treth Gyngor 2018-19 ar gyfer y Band hwn yn £993.54 er gwaethaf cynnydd 12.5% ond roedd yr 'elfen treth safonol' a ddefnyddiwyd yn y fformiwla yn £1,170.48 ac mae Llywodraeth Cymru yn tybio bod yr incwm hwn wedi'i godi ar y lefel honno. Pe bai'r fformiwla wedi'i haddasu i'r Dreth Gyngor wirioneddol, byddai Sir Benfro wedi ennill £10.9m ar gyfer 2018-19. Byddai'r cyllid a gynhyrchwyd wrth newid y fformiwla wedi eu galluogi i fuddsoddi'r adnoddau ychwanegol mewn gwasanaethau lleol sydd eisoes wedi dioddef.

Yn 2019-20 mae Aseiad o Wariant Safonol Sir Benfro yn £230.386m a phe baent yn derbyn cyllid allanol cyfun o £161.656m, byddai angen iddynt gynhyrchu £68.73m o'r Dreth Gyngor er mwyn cyrraedd Aseiad o Wariant Safonol sy'n rhoi 28% Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gan fod eu gwariant net ar gyfer 2018-19 £10.9m o dan yr Aseiad o Wariant Safonol, a Rhondda Cynon Taf £16.6m dros yr Aseiad, maent yn cwestiynu sut y gellir cyfiawnhau neu gynnal hyn pan fo'n rhaid i'r ddau gyngor ddarparu'r un gwasanaethau.

Nid yw parhau i ddiogelu gwasanaethau iechyd ar draul Llywodraeth Leol yn deg, yn gyfiawn nac yn gynaliadwy ac nid yw cyllid Llywodraeth Leol yn ddigon i roi sicrwydd o ddiogelu a chynnal darpariaeth gwasanaethau lleol. Mae'r Cyngor yn ystyried, am y tro cyntaf, atal gwasanaethau ar gyfer 2019-20 a gwneud newidiadau radical i wasanaethau eraill i sicrhau bod rhai gwasanaethau'n dal i gael eu darparu.

Mae Sir Benfro yn siomedig nad oes setliadau mynegol ar gyfer 2020-21 na blynyddoedd eraill yn y dyfodol ar gael.

Maent yn teimlo bod prydau ysgol am ddim, y dyfarniad cyflog athrawon a chyllid 'ychwanegol' i wasanaethau cymdeithasol craidd yn cuddio gostyngiad yn y setliad a fyddai wedi bod yn fwy sylweddol, ac mewn gwirionedd mae parhau i gynnal cyllid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn doriad blynyddol gan fod gwariant yn cynyddu bob blwyddyn.

I bob pwrpas, mae lefel flynyddol y Gronfa Cyfalaf Cyffredinol yn doriad arall oherwydd chwyddiant blynyddol mawr yn y maes hwn.

Maent yn nodi'r nifer o ffrydiau cyllid a amlinellir fel grantiau penodol yn y Setliad Dros Dro 2019-20 ond roeddent ar ddeall mai polisi Llywodraeth Cymru oedd symud cynifer o grantiau â phosibl i mewn i'r setliad.

Oherwydd gostyngiadau cyllid, ni allant weld sut y gallant fforddio darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg nac i beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac felly byddent wedi croesawu cyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Maent yn edrych ymlaen i'w sylwadau gael eu hystyried, gan arwain at Setliad Terfynol llawer gwell.

### **Cyngor Bro Morgannwg - Setliad Dros Dro -0.7%**

Mae'r Cyngor yn nodi bod angen deall cyd-destun y Setliad Dros Dro er mwyn sylweddoli ar yr effaith a gaiff y lefel cyllid is arfaethedig ar wasanaethau a threthdalwyr lleol. Mae awdurdodau lleol yn eu hwythfed mlynedd o gyni, sydd wedi cael effaith sylweddol ar eu gwytnwch ariannol i wynebu heriau sy'n cynyddu drwy'r amser, ac i ymateb iddynt. Yn ystod y cyni hwn, mae gwasanaethau cyhoeddus lleol Cymru wedi wynebu o leiaf £1bn o doriadau.

Mae Bro Morgannwg wedi canfod a chyflawni arbedion refeniw ers 2010-11 gwerth dros £50m ar gyllideb refeniw net o £222m yn 2018-19. Maent yn parhau i ddangos rheolaeth ariannol gadarn gan sicrhau y darperir gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol, ond mae darparu'r gwasanaethau hanfodol hynny'n mynd yn anoddach ac mae'r Fro ac awdurdodau eraill yn wynebu penderfyniadau heriol iawn, a allai fod yn niweidiol, os nad yw'r cyllid yn gwella ar unwaith.

Drwy eu hagenda drawsnewid eu hunain, 'Ail-lunio Strategaeth Gwasanaethau' maent wedi adolygu eu holl weithgareddau i sicrhau mai dim ond gwasanaethau a chymorth sy'n ofynnol gan eu trigolion a ddarperir, sydd wedi arwain at fabwysiadu gwahanol fodolau cyflenwi gwasanaethau mewn gwahanol wasanaethau, sydd wedi bod yn rhagweithiol mewn cyfnod o bwysau ariannol digynsail.

Maent wedi sicrhau parhad gwasanaethau llyfrgell, wedi ystyried yr incwm a gynhyrchir, wedi dechrau codi tâl am wasanaethau a arferai fod yn ddi-dâl ac wedi ceisio nawdd ar gyfer digwyddiadau allweddol. Er y bu rhywfaint o adenillion ariannol, mae'n bell o fod yn ddigon i sicrhau sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y dyfodol. Maent yn symleiddio eu prosesau ac yn gweithio tuag at wasanaethau sy'n manteisio ar dechnoleg newydd i roi gwell mynediad i drigolion.

Mae Bro Morgannwg yn parhau i weithio gydag awdurdodau eraill i ddarparu gwasanaethau a rennir i ganiatáu parhad darpariaeth gwasanaethau wrth iddynt wynebu problemau gwytnwch oherwydd pwysau ariannol. Maent wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y maent yn gweithredu i sicrhau eu bod yn parhau i gyflenwi eu gwasanaethau, ond maent yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a bydd rhaid tynnu rhai gwasanaethau yn ôl wrth iddynt geisio cydbwysu eu cyllideb ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad uniongyrchol i danariannu o flwyddyn i flwyddyn, mae gwasanaethau nawr o

dan fygythiad, sy'n beth trist yn enwedig yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Cyngor yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried y pwysau sydd ar awdurdodau o ran costau. Mae'r setliad cyffredinol yn cynnig gostyngiad cyfartalog 0.3% ar draws awdurdodau, a gostyngiad 0.7% i Fro Morgannwg, sy'n golygu £1.037m yn llai o arian. Gan fod eu gostyngiad arfaethedig o dan y trothwy -1%, ni fyddant yn cael cymorth pellach drwy'r broses setliadau.

Gan fod Gweithlu'n allweddol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, mae effaith chwyddiant cyflogau y flwyddyn nesaf yn £3.551m ac mae angen hwn i fodloni gofynion y strwythur tâl newydd, sy'n achosi gostyngiad net 2.3%. Mae chwyddiant prisiau yn bwysau arall gan fod mwy o wasanaethau'n cael eu comisiynu yn hytrach na'u darparu'n uniongyrchol, a gan nad yw hyn wedi ei ariannu ar hyn o bryd ar gyfer 2019-20, bydd yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Gan nad yw'r Isafswm Ymrwymiad Cyllid (cywerth ag 1%) yn ei le mwyach ar gyfer cyllid ysgolion, mae'r awdurdod wedi parhau i flaenoriaethu cyllid ysgolion, sy'n bwysau ariannol, ac yn 2018-19 mae'n ofynnol i ysgolion wynebu pwysau costau o £824,000. Mae Bro Morgannwg wedi parhau i roi £2.9m uwchlaw eu IBA o gymorth i ysgolion; mae angen hyn oherwydd y swm isel o gyllid a dderbynnir ar gyfer pob disgybl gan Lywodraeth Cymru. Mae effaith y newid i gynllun pensiwn heb ei ariannu'r athrawon yn achosi pwysau cost o £1.8m y flwyddyn nesaf (gostyngiad pellach 1.2%). Mae gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi creu pwysau ariannol sylweddol nad oes cyllid ar ei gyfer, ac ynghyd â chynnydd yn anghenion cymhleth plant a phobl ifanc, mae hyn yn golygu bod cost yr anghenion hyn dros £1m yn 2019-20.

Mae pwysau Gofal Cymdeithasol yn hysbys ac mae bodloni'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael effaith fawr ar y Cyngor gan fod y rhan fwyaf o gymorth cartref yn cael ei wneud ar gcontractau allanol. Mae niferoedd y bobl '65 oed a hŷn' sydd ag angen gofal cymhleth yn cynyddu ac mae mwy a mwy o bwysau ar y gyllideb plant a phobl ifanc gan fod nifer y teuluoedd ag angen cymorth a chymhlethdod yr anghenion o fewn poblogaeth plant sy'n 'derbyn gofal' hefyd yn tyfu.

Maent yn llwyr o blaid y cyllid a ddarparwyd i'r Gwasanaeth Iechyd ond yn argymhell yn gryf y dylid darparu cyllid ychwanegol sylweddol i wasanaethau Gofal Cymdeithasol yr awdurdod i sicrhau y gall pobl ag anghenion cymhleth fyw a ffynnu yn eu cymunedau eu hunain. Mae croeso i'r cyllid gofal cymdeithasol, ond nid yw'n glir sut y dylid ei ddefnyddio felly maent yn gofyn am gyn lleied o delerau ac amodau â phosibl. Mae'r Cyngor yn teimlo ei bod yn bryd i wasanaethau llywodraeth leol gael eu hariannu'n fwy cyfartal o'u cymharu â'r GIG.

Mae eu hymrwymiad i gefnogi cyllidebau addysg a gofal cymdeithasol wedi golygu bod rhaid gwneud arbedion sylweddol mewn gwasanaethau eraill (diogelu'r cyhoedd, gwastraff a thrafnidiaeth) felly ni allant fod yn rhagweithiol.

Mae colli incwm ailgylchu ac erydiad parhaus y Grant Refeniw Sengl yn bwysau sylweddol ac fel awdurdod perfformiad uchel a chost isel o ran y gwasanaeth hwn, ni allant ymateb i bwysau drwy wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd.

Mae Bro Morgannwg yn gofyn am i'r cwantwm sydd ar gael i Lywodraeth Leol gael ei ystyried eto yn y blynyddoedd sydd i ddod gan gydnabod bod pob awdurdod yn wynebu problemau fel yr amlinellwyd yn eu hymateb. Maent yn ffyddiog y bydd arian newydd a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn cyrraedd Cynghorau ac y byddant 'ar flaen y ciw' fel y cyhoeddodd y Prif Weinidog.

Maent yn gofyn am newidiadau i'r setliad h.y. Trosglwyddo £15m ar gyfer ysgolion ar unwaith i'r grant cynnal refeniw; dileu amodau grant ar gyfer y £30m i ofal cymdeithasol; dynodi £30m a neilltuwyd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel 'Cronfa Gwasanaethau Ataliol Llywodraeth Leol'; a chodi'r llawr ariannu o -0.1% a setliad sy'n adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol mewn chwyddiant.

### **Cyngor Sir Ynys Môn - Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol - Setliad Dros Dro -1.0%**

Mae Pwyllgor Ynys Môn wedi craffu ar gynigion cyllideb cychwynnol y Cyngor ar gyfer 2019-20 ynghyd â'r Setliad Dros Dro, ac wedi mynegi pryderon y gallai goblygiadau'r setliad olygu bod gan y Cyngor fwch ariannol sylweddol i'w lenwi.

Mae'r Pwyllgor yn bryderus ac yn siomedig ynglŷn â'r setliad dros dro ac maent yn galw'n daer am gyllid ychwanegol yn y setliad terfynol. Maent yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y goblygiadau i sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor a sicrhau bod cyllid ychwanegol i Gyngor Sir Ynys Môn yn y setliad terfynol.

### **Cyngor Sir Caerdydd - Setliad Dros Dro 0.4%**

Mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod hwn yn setliad anodd i Lywodraeth Leol Cymru, ac nid yw sefyllfa Caerdydd yn eithriad. Maent yn teimlo bod eu setliad yn ostyngiad sylweddol mewn termau real ac er ei fod yn uwch na chyfartaledd Cymru, mae hynny'n adlewyrchu'r galw cymharol. Mae'r bwch cyllideb yn £35m, felly nid yw'r cynnydd arian 'tebyg i'w debyg' £1.7m y byddant yn ei gael ar gyfer 2019-20 yn cymharu â'r pwysau sy'n eu hwynebu o ran tâl, prisiau a galw. Mae eu cynlluniau i gau'r bwch hwn, ar ôl cyfnod hir o heriau ariannol, yn cynnwys dros £19m o arbedion cyfarwyddiaeth, cynyddu'r dreth gyngor, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chyfyngu ar dwf ysgolion ond bydd y mesurau hyn yn dal i fod yn annigonol i lenwi bwch cyllideb 2019-20. Mae hyn yn golygu y bydd angen mesur ategol o ddileu cyllideb gwytnwch ariannol gwerth £4miliwn gan ei gwneud yn amhosibl parhau i reoli cyllidebau ar y raddfa hon heb effaith andwyol barhaol, ac mae hyn yn bryder yng nghyd-destun amcangyfrif o £93 miliwn o fwch cyllideb yn y tymor canolig.

Mae rhai meysydd tanariannu penodol, ac er bod cyllid i helpu i dalu dyfarniadau cyflog athrawon yn newyddion da, nid oes dim byd wedi'i wneud am y costau mwy sylweddol sy'n gysylltiedig â chyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Mae angen £7miliwn ar gyfer ysgolion Caerdydd (£4.3miliwn yn 2019-20), felly maent yn wynebu pwysau sylweddol na ellir ei osgoi ac yn gobeithio y caiff Cymru gyllid llawn ar gyfer y pwysau hwn yn y Setliad Terfynol, fel y cafodd ysgolion yn Lloegr.

Roedd rhai nodweddion cadarnhaol yng nghynlluniau grant penodol y flwyddyn nesaf, h.y. y cyllid parhaus i Ddysgwyr o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, yn ogystal â'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â thoriadau a gynlluniwyd i grantiau eraill. Maent yn croesawu'r grant Gwasanaethau Cymdeithasol ychwanegol o £30miliwn a'r ffaith bod y telerau a'r amodau'n eang, sy'n golygu y gellir eu defnyddio'n hyblyg, ond maent yn siomedig bod y grant £15miliwn ychwanegol i Ysgolion yn dod gyda gofynion penodol ac ychwanegol, sy'n ei wneud yn llai hyblyg. Byddai'n fwy defnyddiol pe bai cronfeydd ychwanegol megis Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion wedi'u cyfeirio drwy'r Grant Cynnal Refeniw, gan y byddai hyn yn rhoi rhyw sicrwydd y byddai'r symiau'n parhau. Mae'r gwasanaethau hyn yn wynebu pwysau sylweddol ac mae'n bwysig bod y setliad yn cydnabod hyn oherwydd nid yw'r cyllid erbyn hyn yn ddigon i ymdopi â'r pwysau, sydd wedi arwain at doriadau lefel gwasanaeth i wasanaethau eraill sy'n mynd yn anghynaliadwy dros y tymor canolig. Yn 2019-20 yn unig, bydd "gwasanaethau eraill", sy'n gyfrifol am ddim ond 19% o'u cyllideb, yn gorfod gwneud bron i 70% o'r arbedion sydd eu hangen ac ni all y gwasanaethau hyn barhau i fod yn brif ffynhonnell cyllid ar gyfer galw nad yw wedi'i ariannu mewn meysydd eraill.

Mae Cyngor Caerdydd yn rhagweld y bydd y Setliad Terfynol yn adlewyrchu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y bydd Llywodraeth Leol yn flaenoriaeth i unrhyw adnoddau ychwanegol a ddarperir i Lywodraeth Cymru.

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Setliad Dros Dro 0.1%**

Mae Torfaen yn nodi bod y setliad dros dro wedi darparu gostyngiad arian cyfartalog arall i Gymru gyfan o -0.3%, a bod nifer o awdurdodau wedi cael setliadau llawer is. Mewn termau real, byddai'r gostyngiad yn llawer mwy ac mae'n bell o fod yn ddigon o arian i gynnal gwasanaethau lleol.

Er bod eu setliad wedi cynyddu ychydig bach, maent yn teimlo nad ydynt wedi cael digon o bell, o ystyried y pwysau sy'n eu hwynebu o ran chwyddiant a galw sy'n golygu y bydd rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd iawn i osod cyllideb gytbwys, a bydd lefelau gwasanaeth yn dioddef.

Gwnaethpwyd cyhoeddiad y setliad yn anoddach, gan iddo ddatgan bod adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer Addysg a Gofal Cymdeithasol. Maent yn teimlo mai dim ond mater o wella'r sefyllfa o gymharu â dyraniad amcanol llawer anoddach oedd hyn, ac wrth wynebu sefyllfa lle nad yw swm eu harian prin wedi newid, mae'n anodd iddynt weld yr 'adnoddau ychwanegol'.

Mae Torfaen yn croesawu'r cyllid grant ychwanegol ar gyfer partneriaethau Gofal Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol ond nid yw'n gwneud iawn am y diffyg yn y setliad dros dro ac maent yn dadlau bod rhaid i'r grantiau hyn fod mor hyblyg â phosibl. Nid yw lefel gyffredinol y cyllid yn cymharu'n ffafriol â'r cynnydd arfaethedig i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac maent yn teimlo y dylid seilio'r cyllid ar y 'system' iechyd (yn hytrach na'r gwasanaeth) i gydnabod bod gofal cymdeithasol hefyd yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda ataliol.

Mae'r setliad 'un flwyddyn' yn parhau i fod yn siom gan nad yw'n eu helpu i gynllunio gwasanaethau yn y tymor canolig. Maent yn cydnabod nad yw cynllunio tymor hir yn hawdd ond mae'r Cyngor a'u rheoleiddwyr yn disgwyl iddynt gynllunio ar sail mwy nag un flwyddyn, ac nid yw hynny'n hawdd heb ddyraniadau amcanol ar lefel cynghorau unigol. Byddai setliadau am fwy nag un flwyddyn yn eu cynorthwyo i gyflawni eu nodau cyffredin o wasanaeth cyhoeddus effeithiol a chydgyssylltiedig o fewn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Maent yn falch bod y 'mecanwaith llawr' wedi ei gadw a'i fod yn dal i fod yn gyllid ychwanegol yn hytrach na 'sleisio'r top'.

Mae'r Cyngor yn nodi bod y wybodaeth am grant Cymru Gyfan yn sicr yn anghyflawn ac y dylid darparu dadansoddiad ar lefel awdurdodau unigol ar gyfer y setliad dros dro. Mae gwybodaeth lawn a manwl am grantiau yn rhan bwysig o'u penderfyniadau cyllidebol, yn enwedig a hwythau wedi gweld gostyngiadau hwyr nas rhagwelwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Maent yn falch bod lefel cynnydd y Dreth Gyngor yn dal i fod yn fater o ddewis polisi lleol. Maent yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd ac yn gwneud eu gorau i gyflenwi cyllideb gytbwys, ond mae cyfyngiadau parhaus ar gyllid yn anochel yn rhoi pwysau ar gynyddiadau'r Dreth Gyngor.

Maent yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i alw am ariannu'r cynnydd Pensiwn Athrawon y cytunwyd arno gan Lywodraeth y DU, gan nad yw'r gost yn fforddiadwy i ysgolion a llywodraeth leol heb y cyllid ychwanegol hwn.



Mae Torfaen yn nodi ei bod yn bwysig bod y gwasanaethau hanfodol a ddarperir ganddynt yn cael eu hariannu'n briodol, ac yn gobeithio y bydd rhyw symudiad cadarnhaol sylweddol rhwng y setliadau dros dro a threfnol neu bydd rhaid wynebu dewisiadau a phenderfyniadau llwm.

### **Cyngor Sir Ceredigion - Setliad Dros Dro -0.3%**

Mae Ceredigion yn nodi eu bod wedi dioddef gostyngiadau sylweddol am y 6 mlynedd ddiwethaf ac ynghyd â phwysau chwyddiant, mae hyn wedi achosi gostyngiad 25% yn eu cyllideb (cyfanswm o £38miliwn), ac mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld toriadau hyd at £18m.

Mae'r gofynion deddfwriaethol newydd (e.e. y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Iaith Gymraeg) wedi achosi pwysau ychwanegol iddynt. Bydd y cynnydd Pensiwn Athrawon hefyd yn effeithio ar Ardoll yr Awdurdod Tân ac ynghyd â phwysau chwyddiant eraill mae hyn yn golygu bod Ceredigion £6m yn brin ac y byddai angen cynnydd 5% yn eu cyllid er mwyn i gynyddiadau'r Dreth Gyngor aros yn isel h.y. 4-5%.

O dan y setliad dros dro, maent yn wynebu toriad 0.3% pellach sy'n cynnwys y cynnydd yng nghyflogau athrawon ar gyfer rhan o 2019-20; felly ni fydd yr arian canlyniadol a addawyd yn setliad San Steffan yn bodoli mewn gwirionedd. Mae hyn, ynghyd ag effaith y cynnydd mewn pensiynau a phwysau chwyddiant, yn golygu y bydd eu cyllideb ysgolion yn wynebu diffyg o £2.4m oni bai bod cynnydd sylweddol cyn y cyhoeddir y gyllideb derfynol. Mae hyn yn gyfystyr â cholli 60 o swyddi addysgu sy'n gywerth â staffio un ysgol uwchradd.

Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion eisoes o dan straen ariannol sylweddol, yn enwedig Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Mae Ceredigion yn wynebu diffyg o £3.4m yn y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd methu â llenwi hwn yn arwain at ddileu llawer o swyddi. Ni ellir gor-ddweud yr heriau sy'n eu hwynebu i gadw gwasanaethau cychwynnol ar agor, ac mae'r 'potiau ariannu prosiectau' sy'n mynnu mwy a mwy o fiwrocratiaeth i'w cynnal yn cael blaenoriaeth dros barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn llawn.

Maent am i Lywodraeth Cymru gydnabod y dylai ymyriadau a gwasanaethau ataliol megis gofal cymdeithasol, hamdden, diogelu'r cyhoedd ac addysg fod yn hanfodol mewn dyraniadau cyllideb cydnabyddedig a bod rhaid i hyn gynnwys ymrwymiad i'r angen i ariannu'r holl sector gofal yn gyfartal er mwyn lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd.

Mae gostyngiadau a newidiadau mawr i'r Grant Cynnal Refeniw wedi gadael diffyg sydd ag angen sylw, ac ni ellir ei ystyried a'i roi ar waith mewn cyfnod mor fyr. Mae angen llawer mwy o 'amser ymlaen llaw' cyn rhoi'r newidiadau mawr gofynnol ar waith nag a ganiateir gan gyfnod gosod y gyllideb.

Mae'r Cyngor yn nodi y cynhelir y cyllid cyfalaf cyffredinol dros y tair blynedd nesaf, sy'n doriad mewn termau real, ac mae'r dyraniadau'n aros yn wastad ar ôl tair blynedd o doriadau – cyfanswm o 36%. Maent yn gwneud y gorau o dderbyniadau cyfalaf a benthyca darbodus o fewn eu fframwaith polisi a'u lefelau fforddiadwyedd ond bydd yn anoddach ac anoddach dod o hyd i'r arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Maent yn nodi'r annhegwch bod gofyn i siroedd arfordirol ddarparu 25% o arian cyfatebol i dalu am brosiectau hanfodol amddiffyn yr arfordir sydd yn y bôn yn asedau cenedlaethol, ac yn gofyn am adolygiad brys o'r cyfraddau ymyrryd hyn. Mae lleihau cyllidebau refeniw'n golygu bod unrhyw fenthyca pellach yn mynd yn llai a llai dichonadwy iddynt.

## **Cyngor Sir Powys - Setliad Dros Dro -1.0 %**

Er bod y setliad yn well na'r rhagamcan a bod y llawr cyllid yn rhoi rhyw sicrwydd, mae Powys yn nodi eu bod unwaith eto'n cael gostyngiad cyllid allanol cyfun o -1% neu £1.745m. Mae hyn, ynghyd â chynnydd mewn pwysau o ran cyflogau, prisiau a galw eto'n golygu y bydd rhaid iddynt wneud arbedion sylweddol. Mae'r cyllid y pen yn £1,312, sy'n dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru sef £1,344.

Maent o'r farn mai'r Setliad hwn yw'r her ariannol fwyaf yng Nghymru o bell ffordd ar draws y degawd diwethaf ac er mwyn ateb yr her hon, maent wedi cyflawni arbedion sylweddol gwerth £73m ers 2012-13. I ymdopi â'r gostyngiadau cyllidebol parhaus, maent wedi bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl gan ddal i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ac mae Powys yn archwilio sut i leihau costau drwy arloesi a chyflenwi'n ddigidol, yn ogystal â chyfuno lleoliadau ac adnoddau o fewn y Cyngor a'u partneriaid. Maent yn trawsnewid y ffordd y cyflenwir llawer o wasanaethau ond bydd y gostyngiad parhaus mewn cyllid a'r pwysau costau cynyddol yn achosi iddynt ystyried tynnu rhai gwasanaethau'n ôl.

Mae Powys yn falch bod y rhan y mae gwasanaethau Llywodraeth Leol yn ei chwarae yn y system iechyd a gofal cymdeithasol eto'n cael ei chydabod, ond nid yw'r amcangyfrif o £820k o gyllid ychwanegol, er ei fod o gymorth, yn gwneud rhyw lawer i leddfu'r pwysau ariannol sylweddol ar y gwasanaeth hwn. Mae chwyddiant cyflogau, effaith y cyflog byw a'r cynnydd yn y galw (wrth i anghenion y boblogaeth oedranus fynd yn fwy cymhleth) yn cynyddu'r pwysau o ran costau ar y gyllideb Gofal Cymdeithasol, ac maent yn aros yn eiddgar am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r £30 miliwn ychwanegol o gyllid wedi'i dargedu ar gyfer gofal cymdeithasol.

Croesawir trosglwyddo rhagor o grantiau i mewn i'r setliad, a pharhau i gyfuno rhai grantiau. Gwerthfawrogir y cyllid grant ychwanegol ond nid yw'r hysbysiad hwyr na'r telerau ac amodau sy'n cyd-fynd â'r ffyrddau cyllid yn helpu o ran cynllunio ariannol tymor byr na chanolig. Mae'r baich gweinyddol arnynt, ynghyd â gofynion archwilio grantiau, yn gostau y gellid eu hosgoi a gellid defnyddio'r arian yn fwy effeithiol i gynorthwyo i gyflenwi gwasanaethau.

Croesawir hefyd y buddsoddiad addysg £15m a ddarparwyd i gefnogi pobl ifanc ac maent yn aros am ragor o wybodaeth ac eglurhad ynglŷn â'r cynnydd i gyllid Pensiwn Athrawon. Os na chaiff ei ariannu, bydd yn cael effaith ac yn rhoi pwysau ariannol sylweddol ar eu hysgolion.

Nid yw parhau i ddarparu cyllid fesul blwyddyn yn rhoi digon o eglurder i Awdurdodau i reoli eu cynllunio ariannol yn effeithiol dros y tymor canolig, felly byddai cadarnhau cyllid y tu hwnt i un flwyddyn yn gwneud llawer i leihau ansicrwydd a gwella eu cynllunio ariannol.

Mae Cyngor Sir Powys yn nodi ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Leol yn cael digon o gyllid o'r swm canlyniadol a dderbynnir gan lywodraeth ganolog.

## **Cyngor Sir y Fflint - Setliad Dros Dro -1.0 %**

Barn unfrydol y Cyngor yw bod y Setliad Dros Dro yn ddifrifol annigonol i ddiwallu anghenion llywodraeth leol ac anghenion penodol Cyngor Sir y Fflint. Maent yn teimlo'n gryf bod rhaid ariannu llywodraeth leol yn ddigonol er mwyn cynnal gwasanaethau lleol a pharhau i gyflawni eu dyletswyddau gofodol.

Nid yw llywodraeth leol wedi cael digon o flaenoriaeth yn y dyraniad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae Sir y Fflint o'r farn bod y gyllideb yn anghytwys a bod angen ei hadolygu ar frys, gan fod llywodraeth leol yn cyrraedd sefyllfa argyfyngus.

Roedd Sir y Fflint yn croesawu'r cyllid ychwanegol penodol i gynorthwyo llywodraeth leol a rhyddhau cyllid a oedd wedi'i gadw'n ôl ar gyfer gofal cymdeithasol, ond mae swm cyfunol y cyllid hwn yn annigonol.

Gan y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid refeniw ychwanegol o gyllideb ddiweddar y Canghellor, mae'r Cyngor o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o hyblygrwydd ariannol i wella'r Setliad ymhellach ac maent yn galw am Setliad Terfynol gwell.

Mae ymgyrch weithgar Sir y Fflint dros gyllid teg i lywodraeth leol yng Nghymru yn galw am nifer bach o ymyriadau cyllid penodol sydd, yn eu cred hwy, yn bosibl ac yn fforddiadwy o fewn adnoddau Llywodraeth Cymru. Ni fyddai caniatáu'r ceisiadau hyn yn ansefydlogi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru nac yn rhoi Aelodau Cynulliad lleol yn y sefyllfa chwithig o orfod dewis rhwng ffyddlondeb i etholaeth a chyfrifoldeb cyfunol i Lywodraeth Cymru. Er bod y ceisiadau wedi'u bodloni'n rhannol, maent yn nodi bod y Setliad fel y mae yn bell o fod yn ddigon.

Mae Sir y Fflint yn y gorffennol wedi gofyn yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am gymorth a rhyddhad ariannol. Maent wedi gofyn pam mae'r Fformiwla Ariannu'n golygu mai cynghorau nad ydynt yn cael llawer o gyllid y pen o'r boblogaeth (gan gynnwys Sir y Fflint) sy'n fwyaf agored i niwed gan effeithiau cyfunol y gostyngiadau blynyddol i'r cyllid. Mae'r anghyfartalwch yn y cyllid hwn sy'n seiliedig ar y fformiwla'n anochel yn creu amrywiad eang yn y risgiau ariannol i gynghorau, ac mae Sir y Fflint ar ben eithafol y continwwm risg.

Mae'n rhaid i'r hyn a ddisgwylir gan gynghorau, sy'n parhau i reoli cyllidebau sy'n lleihau pan fo gwasanaethau o dan bwysau oherwydd y galw amdanynt, fod yn realistig. Maent wedi rhybuddio ers blynyddoedd lawer y byddent yn cyrraedd pwynt lle nad oes dewisiadau ar ôl o ran darbodion maint costau a'u bod wedi gwneud popeth i newid cyfundrefnau a thrawsnewid gwasanaethau yn y tymor canolig – maent nawr o'r farn eu bod wedi cyrraedd y pwynt hwnnw.

Oherwydd eu cynlluniau uchelgeisiol a gyflawnwyd yn dda, maent wedi arbed £85m dros y degawd diwethaf yn erbyn cyllideb refeniw net o tua £260m. Mae eu holl wasanaethau ac eithrio ysgolion a gofal cymdeithasol ar gomisiwn wedi taro targedau effeithlonrwydd sydd rhwng 30%-45%. Mae eu gwariant sefydlog ar ysgolion yn 40% o'u cyllideb refeniw, ac mae gofal cymdeithasol a arweinir gan alw a hawl yn gyfrifol am 25% arall. Felly, ychydig iawn o le sydd ganddynt i gynhyrchu mwy o ddarbodion maint a chydbwysu'r gyllideb gorfforaethol pan fo gwasanaethau eraill eisoes wedi rhoi cymaint o straen arnynt.

Ar adeg y Setliad Dros Dro, roedd yr amcangyfrif o'r bwch yn eu cyllideb ar gyfer 2019-20 yn £15.2m ac ar wahân i'r gostyngiad Grant Cynnal Refeniw, mae wedi'i wneud yn bennaf o bron i £5m ar gyfer costau dyfarniadau cyflog cenedlaethol (gan gynnwys athrawon) a dros £5m o gostau gofal cymdeithasol a arweinir gan alw a chostau chwyddiant. Mae gwerth cyfunol o £8.5m hefyd wedi'i nodi (dewisiadau gwasanaethau ac ariannu corfforaethol) a chyn y cyhoeddiadau diweddar, roedd diffyg Sir y Fflint yn dal i fod yn £6.7m.

Mae pob un gwasanaeth yn Sir y Fflint wedi cael asesiad risg cyllidebol manwl. Mae'r asesiadau hyn yn dangos, pe baent yn parhau â gostyngiadau costau y flwyddyn nesaf, y byddent yn ymwybodol yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa risg uchel lle gallai gwasanaethau fod yn anniogel, llywodraethu corfforaethol mewn perygl, a'r gweithlu dan straen – nid yw Sir y Fflint yn gallu gwneud hyn, nac yn barod i wneud hyn.

Felly, dim ond tri dewis sydd gan y Cyngor i gydbwysu eu cyllideb, h.y. (i) defnyddio arian wrth gefn a balansau, (ii) dibynnu ar y Dreth Gyngor a (iii) datrysiadau cenedlaethol gyda chonhesiynau cyllideb gan Lywodraeth Cymru. O ran yr opsiwn cyntaf, mae llawer o arian wedi'i gymryd o gronfeydd wrth gefn i gydbwysu cyllidebau yn y gorffennol ac mae lefel y

cronfeydd wrth gefn yn gymharol isel; maent eisoes wedi cynnwys £1.9m o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn eu datrysiadau cyllideb arfaethedig ar gyfer 2019-20. O ran yr ail opsiwn, mae cynnydd Treth Gyngor dangosol o 4.5% eisoes wedi ei gynnwys yn y datrysiadau cyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Maent o'r farn y byddai tynnu mwy o arian o'r cronfeydd wrth gefn yn anghynaliadwy ac yn anniogel, felly maent yn hoelio eu sylw ar gyfuniad o'r Dreth Gyngor a mwy o gyllid cenedlaethol i bontio'r bwlch sy'n weddill.

Os na wneir gwelliannau pellach i'r Setliad, byddai'n rhaid i Sir y Fflint fabwysiadu cynnydd 9% neu fwy yn y Dreth Gyngor i gydbwysu cyllideb y flwyddyn nesaf. Mae eu hymgyrch dros gyllid teg i lywodraeth leol yn awgrymu y dylid darparu o leiaf £5.6m ychwanegol o gyllid cenedlaethol o'r ymyriadau a nodwyd, ac ar ôl dadansoddi effaith cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, maent yn amcangyfrif eu bod yn dal i fod £2m+ yn brin o'u targed.

Mae'r Cyngor yn gofyn yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio mwy o'r £59m o refeniw 'canlyniadol' o gyllideb y Canghellor ynghyd ag arian arall sydd ar gael iddynt er mwyn gwella'r Setliad fel bod Sir y Fflint yn cael o leiaf £2m yn ychwanegol.

Heb well Setliad, rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn eu bod yn ymwybodol yn symud y cyfrifoldeb dros dalu am wasanaethau lleol o gyllid cenedlaethol i dalwyr y Dreth Gyngor. Maent yn dymuno cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2019-20 o fewn 6-7% ar y mwyaf ond mae angen cymorth Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud hynny.

I ategu'r cais hwn, maent yn nodi'r sefyllfa ariannu gronig mewn addysg ysgolion. Gan nad oes blaenoriaeth weladwy i oed addysg statudol yng nghyllideb Cymru, mae nifer o gynghorau'n paratoi i ostwng lefelau cyllid eu rhwydwaith ysgolion lleol. Mae Sir y Fflint yn awdurdod addysg â chymhareb isel o gyllid i bob disgybl, a gan fod nifer cynyddol o'u hysgolion uwchradd nawr yn gweithredu o dan ddiffygion trwyddedig, maent yn cadw eu hymrwymiad i gynnal cyllid i ysgolion (un o'r ffactorau y tu hwnt i'w diffyg cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf). I sicrhau y gellir ariannu ysgolion yn ddigonol a chadw cynyddiadau'r Dreth Gyngor yn rhesymol, maent yn gofyn am ychwanegedd ar Setliad gwell.

Maent yn gwahodd Llywodraeth Cymru i adolygu eu cynlluniau cyllidebol a'u hasesiadau risg a gwytnwch fel eu bod yn dawel eu meddwl bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau cyllideb gytbwys cyn troi at Lywodraeth Cymru am gymorth. Er y gwrthodwyd eu ceisiadau penodol am ymyriadau cyllideb ar gyfer 2018-19, cytunodd y naill a'r llall i rywfaint o waith anffurfiol adolygu cymheiriaid ar unwaith er mwyn adolygu a dilysu eu safbwynt a'u strategaeth a chynhyrchu mwy o opsiynau i wneud arbedion effeithlonrwydd. Maent wedi rhoi canlyniadau'r gwaith adolygu cymheiriaid hwn ar waith ac eisoes wedi ystyried yr arbedion effeithlonrwydd ychwanegol hynny wrth gynllunio eu cyllideb ar gyfer 2019-20.

## **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Mae CLILC yn nodi y bu llawer o ohebiaeth rhwng CLILC ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Prif Weinidog ynglŷn â bregusrwydd gwasanaethau allweddol llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n dilyn deg mlynedd o ostyngiadau i gyllidebau mewn termau real. Yn y gorffennol, maent i gyd wedi cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn amddiffyn gwasanaethau lleol yn gymharol, i raddau.

Maent yn teimlo bod y 'mynd a dod' diweddar yn adlewyrchu un o'r setliadau bleraf o fewn cof diweddar, ac y gellid bod wedi rhagweld a lliniaru llawer o'r maglau cysylltiedig cyn y cyhoeddiad dros dro.

Mae llywodraeth leol yn sylweddoli bod y gostyngiad 0.3% mewn cyllid allanol cyfun yn llai o doriad na'r gostyngiad 1% a nodwyd yn setliad y llynedd, ond mae pwysau costau wedi

cronni ar gyfer 2019-20 a thu hwnt. Mae gwasanaethau lleol yn wynebu llawer mwy o bwysau costau tuag i fyny nag o'r blaen, ac er y croesawir codi'r cap tâl ei hun, mae'n creu £82m o bwysau yn 2019-20. Roedd CLILC yn cynnwys tabl i ddangos y pwysau sydd ar wahanol wasanaethau yn 2019-20 a chyfanswm y ffigurau wrth gynnwys cyllid ychwanegol.

Nid yw cyhoeddiad y setliad dros dro, boed fel rhan o'r cyllid allanol cyfun neu fel grant penodol, yn ddigonol i ymdopi â'r gwerth £317 miliwn o bwysau sy'n wynebu addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau lleol hanfodol eraill.

Ers dechrau cyni, mae cyllid i addysg ac ysgolion wedi cael blaenoriaeth ond mae'r pwysau ar gyllidebau ysgolion o 2019-20 ymlaen yn golygu y collwyd y rhan fwyaf o unrhyw dir a enillwyd o ganlyniad i'r amddiffyniad cymharol hwn. Er y cyllid a gyhoeddwyd yn y setliad, mae dros £100 miliwn o ddiffyg yng nghyllideb gwasanaethau ysgolion ac addysg. Maent yn croesawu'r cyllid a ddarparwyd tuag at gostau dyfarniadau cyflog athrawon sy'n tybio y bydd llywodraeth leol yn ariannu'r 1% cyntaf o gostau ychwanegol o'u hadnoddau presennol, sydd yn y bôn yn golygu dod o hyd i £10m drwy leihau cyllidebau gwasanaethau neu gynyddu'r dreth gyngor.

Er eu bod wedi erfyn am hyblygrwydd, mae'r £15 miliwn o gyllid grant penodol a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yn golygu na ellir defnyddio'r cyllid nawr i gadw'r swyddi. Mae'r £50 miliwn o bensiynau athrawon yn gyfrifol am hanner y pwysau ychwanegol hwn ac mae Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r achos y dylai Llywodraeth y DU ddilyn polisi'r Datganiad Cyllid. Mae hwn yn mynnu eu bod yn ariannu goblygiadau ariannol eu newidiadau polisi eu hunain o ran pensiynau athrawon a diffoddwyr tân.

Mae CLILC yn sylwi bod y setliad yn nodi cyllid i wasanaethau cymdeithasol ond nid yw'n mynd yn ddigon pell i ddatrys yr argyfwng gofal cymdeithasol. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach" yn nodi mai ei nod yw cynhyrchu 'model cyllid cynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn parhau'n addas dros gyfnod hir'. Mae'r Sefydliad Iechyd wedi dangos pwysigrwydd gofal cymdeithasol i gyflawni GIG effeithiol ac i gyflawni hyn, dylai gwariant net ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru gynyddu 4.1% y flwyddyn mewn termau real, sy'n gywerth â £65 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw'r ymagwedd system at gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol a amlinellir yn "Cymru Iachach" yn bosibl heb fuddsoddi mewn gwariant ataliol. Pan fo un rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael mwy na digon o gyllid i ymdopi â'r pwysau costau chwyddiant sydd arni a'r rhan arall yn wynebu dewisiadau annymunol rhwng dileu swyddi a thorri gwasanaethau, mae'n anodd symud tuag at wasanaeth cyhoeddus di-dor.

Ni ellir anwybyddu gwasanaethau i blant ac mae CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn galw ar y cyd am fwy o adnoddau yn y maes hwn er mwyn ateb cynyddiadau enfawr yn y galw. Datgelodd arolwg diweddar gan CLILC, ar gyfer un cyngor, cynnydd 72% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n destun gorchmynion gofal llawn yn y tair blynedd diwethaf, gan achosi iddynt orwario 15% ar y gyllideb hon. Mae'r effaith bosibl yn y dyfodol ar wasanaethau iechyd meddwl o beidio ag ariannu gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd yn enfawr.

Maent yn croesawu'r buddsoddiad cyfalaf mewn ffyrdd, trafndiaeth a gwastraff yn ogystal â'r rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i greu mwy o le i fuddsoddiadau cyfalaf dros y blynyddoedd nesaf.

Fel mater brys, maent hefyd yn dymuno bwrw ymlaen â'r angen am fwy o lety diogel arbenigol i blant ledled Cymru a allai arwain at welliant ar unwaith i ganlyniadau emosiynol ac adnoddau a chomisiynwyr gwasanaethau.

O ganlyniad i'r llyfogydd diweddar, mae CLILC yn nodi y dylid archwilio'r costau y bu'n rhaid i awdurdodau eu talu a bod angen buddsoddi mewn cynlluniau atal llifogydd.

Mae'r grantiau cyfleusterau i bobl anabl yn ganolog i'w dulliau ataliol ac mae cyflwr priffyrdd ac atgyweirio ffyrdd hefyd yn bwysig i'r cyhoedd.

Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd yn tybio y bydd yr arian canlyniadol ychwanegol i Lywodraeth Cymru oddeutu £58m ar gyfer 2019-20. Mae CLILC yn dweud y gallai hyn gael effaith ar osgoi'r argyfwng sy'n wynebu ysgolion, gofal cymdeithasol a gwasanaethau lleol eraill ac ni ddylid bychanu hyn.

Maent yn parhau i ddadlau y dylid rhoi'r £58m o'r arian canlyniadol nad yw i'r GIG yn y grant cynnal refeniw ac yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau eraill i helpu i ddiogelu gwasanaethau a swyddi lleol:

- Trosglwyddo'r £15m o gyllideb ysgolion i mewn i'r grant cynnal refeniw ar unwaith gan y bydd hyn yn cynorthwyo i ddiogelu swyddi Athrawon a Chynorthwywyr Addysgu ledled Cymru.
- Dileu'r holl amodau grant ar y £30m a gyhoeddwyd ar gyfer gofal cymdeithasol gan y gellid ei ffocysu ar wasanaethau craidd i blant ac oedolion ac y bydd o gymorth mewn meysydd allweddol, h.y. oedi cyn trosglwyddo gofal, cefnogi gofal preswyl a chartref, hybu'r gyllideb plant sy'n derbyn gofal ac ati.
- Gwneud y £30m a ddynodwyd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn "Gronfa Gwasanaethau Ataliol Llywodraeth Leol" a defnyddio'r arian mewn meysydd sy'n cadw pobl allan o'r ysbyty ynghyd â mesurau ataliol h.y. y grant cyfleusterau i bobl anabl, meddygon teulu'n atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, mwy o gefnogaeth i ofal cymunedol, a lleoli gweithwyr cymdeithasol yn yr ysbyty i gynorthwyo i ryddhau cleifion ac ati.
- Er mwyn cynorthwyo'r holl awdurdodau i dalu'n rhannol am y cynnydd yng nghostau'r gweithlu, dylid codi'r llawr presennol i -0.3% a fyddai'n costio £4m ac i 0% tua £13m.

Mae CLILC yn nodi bod y cynigion hyn yn ddewisiadau gwleidyddol ac ymarferol ac y gall Llywodraeth Cymru ddangos y cyfle i wella'r sefyllfa sy'n wynebu gwasanaethau lleol. Maent yn teimlo y bydd angen rhoi sylw i rai mân faterion yn y dyfodol o hyd h.y. a ddylai cyllid ar gyfer cyfrifoldebau newydd allu osgoi'r mecanwaith llawr fel na ddefnyddir cyllid ychwanegol i gynnal y llawr a hefyd, pa ran o'r gyllideb sy'n wynebu risg o ostyngiad cronfa NDR. O wybodaeth a gyhoeddwyd, mae'n ymddangos mai prif grŵp gwariant llywodraeth leol sy'n gyfrifol am y risg; nid ydynt yn meddwl mai dyna a oedd y cytundeb pan ddatganolwyd y gronfa i Gymru ac felly mae angen eglurhad.

Mae cyni wedi effeithio ar bob agwedd ar gymunedau Cymru ac mae'r Cynghorau i gyd, ynghyd â Llywodraeth Cymru, yn edrych ymlaen at adeg pan fydd y polisi wedi dod i ben. Mae'n ddyletswydd ar bawb i ymrwymo i ddatrysiad cyllideb gwleidyddol a moesol i sicrhau cymaint ag y gallant o'r gwasanaethau ataliol lleol presennol ledled Cymru.

### **Ymatebion a anfonwyd yn uniongyrchol at Weinidog(ion) a enwyd**

**Dr Mark Baker, Aelod Cabinet, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – anfonwyd at Dafydd Elis-Thomas, Aelod Cynulliad Setliad Dros Dro -1.0%**

Mae Dr Baker, Aelod Cabinet dros Gyngor Conwy yn ddigalon bod Conwy wedi cael y setliad gwaethaf yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol a'u bod, ynghyd ag Ynys Môn,

Sir y Fflint a Phowys, i gyd ar waelod y tabl a Gwynedd heb fod yn bell o'u blaen. Mae'n teimlo bod Gogledd Cymru yn dioddef yn enbyd ac yn cael eu hesgeuluso gan Lywodraeth Cymru. Mae Conwy wedi llwyddo i arbed £78 miliwn dros y 6 mlynedd diwethaf ac ni allant barhau i dorri gwasanaethau.

### **Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Wrecsam anfonwyd at Kirsty Williams, Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg Setliad Dros Dro -0.6%**

Mae Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Wrecsam yn cyflwyno golwg ar y cyd ar ysgolion uwchradd yn Wrecsam ac yn pryderu y bydd y toriad real -0.6% arfaethedig yn y setliad yn effeithio ar gyllid ysgolion. Addysg yw un o'r meysydd cyllideb mwyaf i lywodraeth leol felly mae'n anochel y bydd effaith negyddol ar y cyllid.

Mae ysgolion Wrecsam eisoes yn wynebu pwysau eithafol ar eu cyllidebau a llawer ar ben eu tennyn, ac eraill yn methu â chynnal cyllideb iach yn y tymor hir. Mae setliad wedi'i ostwng ar y cyd â chynnydd i gyflogau, pwysau posibl ar bensiynau, llai o gyllid grant a chwyddiant cyffredinol, yn gwaethygu sefyllfa ariannol sydd eisoes yn anodd i ysgolion uwchradd.

Maent yn teimlo bod y penderfyniad i flaenoriaethu lechyd dros Lywodraeth Leol yn fygythiad enfawr i bobl ifanc ledled Wrecsam. Gallai goblygiadau toriadau pellach mewn termau real gynnwys cael gwared ar gefnogaeth i'r teuluoedd a'r disgyblion mwyaf anghenus, cynyddu maint dosbarthiadau, risg o ddileu swyddi arbenigwyr addysgu a staff cymorth, ac argyfwng dyfnach o ran recriwtio a hyfforddi athrawon cymorth rhagorol ac arweinwyr y dyfodol.

Maent wedi ymrwymo'n llwyr i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd ac i wella canlyniadau i'w holl ddysgwyr newydd, ond mae newid mor fawr yn golygu goblygiadau mawr o ran costau. Mae sail yr 'Agenda Dyfodol Llwyddiannus' yn gwbl groes i'r torri costau difrifol presennol a fydd yn angenrheidiol oni newidir y setliad drafft.

Mae Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Wrecsam yn deall nad oes atebion hawdd yn ystod cyfnod mor hir o gyni a bod llywodraethau Cymru ar bob lefel yn wynebu penderfyniadau annymunol. Maent yn annog y Gweinidog i ystyried dyraniadau cyllidebau llywodraeth leol, yn enwedig y grant addysg £15 miliwn, fel bod yr arian yn cyrraedd cyllidebau'r ysgolion yn uniongyrchol. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r pwysau eithafol sydd ar Benaethiaid Ysgolion Uwchradd Wrecsam a'r argyfwng cyllid addysgol sy'n gwaethygu. Maent yn cydnabod y bydd cydweithwyr eraill ledled Cymru mewn sefyllfaoedd tebyg ac y bydd hyn yn effeithio arnynt hwythau.

### **Y Cynghorydd David Poole, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – anfonwyd at Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Setliad Dros Dro -0.5%**

Mae'r Cynghorydd Poole yn nodi bod y gyllideb dros dro wedi rhoi Cyngor Caerffili mewn sefyllfa lle bydd rhaid iddynt ystyried toriadau i wasanaethau sylfaenol. Mae'r toriad -0.3% ynghyd â phwysau o ran cyflogau a phensiynau'n golygu bod rhaid arbed £15.8m ar gyfer 2019-20 a £61m dros y 5 mlynedd nesaf, ar ben yr £89m a arbedwyd eisoes.

Mae Cyngor Caerffili yn ystyried amryw o doriadau gwasanaethau gan gynnwys llai o lanhau strydoedd, torri gwair a 'gwasanaethau stryd' megis cynnal a chadw priffyrdd yn ogystal â chau safleoedd Amwynder Dinesig, canolfannau cymunedol, hamdden ac leuenctid ac Oedolion, llyfrgelloedd a chau toiledau cyhoeddus yn llwyr. Mae cynnydd 5% ym mhrisiau prydau ysgol, gostyngiad sylweddol mewn Pryd ar Glud yn ogystal â gostyngiad 50% mewn cartrefi gofal seibiant hefyd yn cael eu hystyried.

Mae'n nodi y byddai toriadau £2.1m i gyllideb ysgolion yn arwain at ddileu swyddi athrawon a lleihau gwasanaethau o ganlyniad i hynny, ac y byddai hyn yn lleihau eu gallu i ariannu cynlluniau cyfalaf megis cynllun ysgolion yr 21<sup>ain</sup> ganrif Band B (sy'n annhebygol iawn o ddigwydd).

Erbyn 2019-20, mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn dangos bod angen gwerth £44m o arbedion pellach felly bydd angen gwneud penderfyniadau mawr i roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau a lleihau rhai eraill yn sylweddol.

Mae'r Cynghorydd Poole yn cydnabod bod angen buddsoddi yn y GIG ond mae'n cwestiynu'r buddsoddiad anghymesur a fydd yn uniongyrchol anffafriol i wasanaethau gofal cymdeithasol Caerffili a'r gwasanaethau ieched ataliol yn fwy cyffredinol. Mae o blaid strategaeth 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru ond mae'n teimlo nad yw'r gyllideb ddrafft yn gyson â'r weledigaeth o wasanaeth ieched ataliol a brys integredig. Bydd y toriadau'n golygu difrod enfawr i lawer o wasanaethau ataliol gan arwain at fwy o bwysau ar y Gwasanaeth Iechyd ac mae'n teimlo bod hyn yn olwg tymor byr sy'n mynd 'yn gwbl groes' i egwyddorion cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Cyngor Tref Pencoed – anfonwyd at y Prif Weinidog**

Mae'r Cyngor Tref yn nodi canlyniadau'r cyfnod o gyni sydd wedi effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau llywodraeth leol a heb gyllid ychwanegol, bydd lefel gwasanaethau statudol awdurdodau lleol yn gwaethygu'n gyflym.

Bydd sgil effaith ar Gynghorau Tref a Chymuned gan y disgwylir i'r Cynghorau hyn gymryd cyfrifoldeb dros fwy o wasanaethau y bydd y prif awdurdodau'n methu â pharhau i'w darparu. Heb gyllid ar gael, ni fyddant yn gallu cyflenwi'r gwasanaethau hyn a gellid colli'r gwasanaethau a ddarperir yn llwyr.

Maent yn deall, fel Cyngor Tref, nad hwy yw'r unig rai sydd yn y sefyllfa hon ond fel Cyngor blaengar hoffent barhau i ddarparu gwasanaethau cyson a digonol i'r gymuned ac maent yn gofyn a gaiff llywodraeth leol fod ar flaen y ciw i gael arian ychwanegol.

### **Y Cynghorydd Carol Clement-Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – anfonwyd at Weinidogion y Cynulliad. Setliad Dros Dro 0.2%**

Mae'r Cynghorydd Clement-Williams, Aelod Cabinet dros Gyllid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yn dweud bod awdurdodau lleol ar ben eu tennyn yn enwedig ysgolion, ac na allant barhau i reoli eu cyllidebau ar ôl yr 8 mlynedd ddiwethaf o doriadau parhaus. Mae'r Cyngor yn galw'n daer am wneud y penderfyniadau cywir ynglŷn a chyllidebau ac am roi'r arian sydd ei angen i lywodraeth leol i barhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hetholwyr yn eu haeddu.

Mae hi'n dweud bod y Cabinet wedi ystyried y toriadau arfaethedig â chalonnau trwm ac mae hi'n llobio ACau i alw am well cyllideb a setliad.

Mae'r Cynghorydd Clement-Williams yn dweud bod Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi blaenoriaethu cyllid i lechyd drwy roi £500m ychwanegol, er bod y Setliad yn rhoi toriad 0.3% i wasanaethau cynghorau ledled Cymru. Mae chwyddiant, dyfarniadau cyflog, pwysau Costau Pensiynau Athrawon a thwf gofal cymdeithasol yn ychwanegu 2% arall at eu costau. O ganlyniad i hyn, bydd rhaid i Gynghorau wneud penderfyniadau eithriadol o anodd er mwyn cydbwysu eu cyllidebau pan fo Llywodraeth Cymru, mewn realiti, yn rhoi llai na blwyddyn iddynt i gynnal eu gwasanaethau. Gan fod lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dibynnu ar ei gilydd, nid yw'r setliad yn adlewyrchu hyn ac maent yn gobeithio y gellir gwella'r sefyllfa erbyn y cyllidebau terfynol.



Dros yr 8 mlynedd ddiwethaf o gynt, mae Castell-nedd Port Talbot wedi gorfod gwneud gwerth £84m o arbedion/toriadau i gydbwysu eu cyllideb. Maent nawr yn wynebu toriad £12m pellach a thoriadau o dros £64m dros y 4 mlynedd nesaf. Maent yn cynnig cau £8m o'r bwlch £12m, a £4m o hynny'n dod o gronfeydd wrth gefn neu setliad gwell.

Gan fod y Prif Weinidog wedi dweud bod llywodraeth leol ar flaen y ciw i gael adnoddau ychwanegol, mae'n hanfodol cynyddu'r cyllid yn sylweddol i osgoi toriadau pellach i ysgolion a gofal cymdeithasol ac ati, ac i gydbwysu eu cyllideb.

### **Steffan ap Dafydd Cynghorydd Llafur dros Ward Aberafan Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot – anfonwyd at Weinidogion y Cynulliad. Setliad Dros Dro 0.2%**

Mae Mr Dafydd, ar ran Ward Aberafan Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, yn gofyn i Lywodraeth Cymru chwilio am ffordd o ariannu llywodraeth leol yn well.

Mae iechyd yn un o nodweddion hanfodol y Gymdeithas Gyfartal y mae pawb yn dyheu amdani fel Sosialwyr Democratig ond mae gwasanaethau Llywodraeth Leol hefyd yn hanfodol, er eu bod wedi dioddef cannoedd o filiynau o bunnau o doriadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi amddiffyn Llywodraeth Leol rhag toriadau mwyaf eithafol y Torïaid yn y blynyddoedd cynnar, o gymharu â Lloegr, ond nid yw hyn yn wir mwyach.

Hoffai'r Cynghorydd Dafydd weld ffordd gliriach a gwell o ariannu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n teimlo bod angen ffordd well o ariannu Gofal Iechyd yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r syniad y byddai cyfuno Awdurdodau Lleol yn datrys problem ariannu Llywodraeth Leol ei hun yn broblemus, gan fod dileu swyddi'n gostus ac y byddai hynny'n ychwanegu at gost toriadau. Yn yr un modd, byddai cyfuno Cynghorau Bwrdeistref Sirol hefyd yn achosi costau enfawr. Mae'r Cynghorydd Dafydd yn deall y cyfyngderau ond yn nodi'n glir bod y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Leol yng Nghymru'n wynebu argyfwng ac yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i alluogi pob llywodraeth leol yng Nghymru i gael cymorth i gynnal eu gwasanaethau.

### **Simon Knoyle, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: Aelod Ward Glyn-nedd – anfonwyd at Weinidogion y Cynulliad. Setliad Dros Dro 0.2%**

Mae'r Cynghorydd Knoyle, Cynghorydd yn Ward Glyn-nedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi mynegi ei bryder ynglŷn â Setliad Dros Dro'r Cyngor.

Maent eisoes yn wynebu gorfod gwneud toriadau i'w gwasanaethau a'u cyfleusterau mewn amryw o wardiau, ac mae'n dweud bod ei ward ef, Glyn-nedd, mewn perygl o orfod cau'r Llyfrgell ac na ellir anwybyddu hyn a bod rhaid ei herio.

Mae'n dweud bod lefelau'r toriadau y rhagwelir y bydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau cyllideb gytbwys yn ddychrynlyd ac nid yw'n meddwl y byddant yn bosibl o gwbl heb gael effaith niweidiol a thrychinebus ar y gwasanaethau rheng flaen y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu darparu i'w trigolion.

Mae'r Cynghorydd Knoyle yn cefnogi'n llawn y wybodaeth a gafwyd gan Aelod Cabinet dros Gyllid Castell-nedd Port Talbot ac mae'n teimlo bod y bwlch rhwng y cyllidebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn enfawr. Gan eu bod yn dibynnu ar ei gilydd ac yn gweithio bron law yn llaw ar adegau, mae'n rhaid cynyddu lefelau cyllid Gofal Cymdeithasol – nid yn unig yn ei Gyngor ef ond ledled Cymru.